

Lluniau'r mis



Gwyn Williams (dde), Rhuthun
Alun Williams (uchod) Cley, Norfolk



Mi welwch nifer o gyfeiriadau at ddyddiadur fferm diddorol **H Rider Haggard** yn y rhifyn hwn

Hanes - ei swm a'i blas

Ydych chi wedi meddwl erioed bod cofnodi bywyd gwelig ganrif neu fwy yn ôl yn fwy na chofnodi pa frenin oedd ar y orsedd, pa drethi oedd i'w talu, a pha anghyfiawnderau oedd pobl yn gorfod dioddef (er pwysiced y cyfryw bethau i'n dealltwriaeth lawn). Mae Hanes yn cynnwys y pethau bach yn ogystal a'r pethau mawr – y pethau hynny yr oedd pobl yn eu cymryd yn ganiataol sydd yn rhoi blas a naws i gyfnod (meddylwch am y synau, yr arogleuon sydd o'n cwmpas ni heddiw a fyddai'n hollol ddieithr i bobl ganrif yn ôl). Bum yn troi hyn yn fy meddwl ar ôl darllen y cofnod hwn gan H Rider Haggard yn ei ddyddiadur *A Farmer's Year* (1909) yn Norfolk, cyfnod pan oedd gwaith fferm yn cael ei fecaneiddio yn gyflym mewn rhai ardaloedd:

14 Gorffennaf 1898: *Although the machine has its beauties, after a long course of it it is pretty to watch the mowers at work, and to hear that long hu-ush of the scythes as they sweep through the deep cool grass. ...*

Dim ond yn y dychymyg y clywn yr *hu-ush* yma erbyn hyn

A dyma un arall gan yr un awdur yn dyfynnu sgwrs rhwng ei weision, Moore a Hood, (mwy o ffordd-o-ddweud tro'ma):

July 14 1898 : ... I found Moore indignant because Hood, perhaps by way of chastening his pride, had told him that he could `chuck a sixpence` anywhere into that field of grass and find it again by which he meant to convey that the crop was decidedly thin. `If he'd been a-dragging of a scythe through it all day long he wouldn't think it's too thin`, Moore added wrathfully.....



Llun: pladurio gwair, Norfolk

Dyfrgi 1... Pysgotwr 0

Rhaid i mi roi y stori wir yma mewn. Brawd ynghyfreth yn sgota yn gorad Aberglaslyn o gwmpas 15fed Awst a bachodd sgodyn go lew ond mwya sydyn o rhywle daeth dyfrgi a gafael yn y sgodyn oedd ar y lein ac i lawr yr afon a fo a gyda plwc y funud olaf daeth y sgodyn i fwrdd oddi ar y bachyn.


Tom Jones

Gwalchwyfyn hofrol

Un yng ngardd Gwelfor, Waunfawr, 11 Medi 2014 yn mynd o flodyn i flodyn fel peth gwallgof.

Llun digon diddim ond mae'n dangos y tafod hir (saeth).

Am lun gwell cliciwch [yma](#)



MWY NA JEST BWLETIN Mae Bwletin Llên Natur yn mynd yn gynyddol aml-ddimension. Ar yr wyneb, 4 neu 6 wyneb-ddalen sydd i pob rhifyn ond mae yna ddrysau yn arwain ohono trwy'r e-labyrinth i bob man. Mae pob gair sydd mewn print glas yn arwain i fwy o wybodaeth ar y pwnc dan sylw, naill ai mewn rhifynnau eraill, neu mewn erthyglau ar ein gwefan, neu mewn gwefannau eraill. Arloesol yn y Gymraeg mewn cylchgrawn amgylcheddol?... rydym yn meddwl ei fod ol!

Mwy am weau llau eithin (Bwletin 79)

Pry cop *Metellina segmentata* ar weau llau eithin (*Tetranychus lintearius*) ger fynedfa Sain, Llandwrog 31



Awst 2014 (sef yr un gweau a'r llynedd, yn dangos eu bod yn parhau fwy na blwyddyn). Holwyd yr arbenigwr Richard Gallon:

- *Metellina segmentata* efallai? DB
- Yes definitely a [Metellina segmentata](#) at this time of the year; the species is common in gorse bushes. I suspect the mites are a little small to be considered prey, but it's possible that the spider already had its web in position on the gorse, with the mites subsequently expanding their web towards where the spider lives. From memory I think the first frosts will see the gorse mites off. The webs don't seem to persist over winter
- Tybed ga'i gadarnhau un peth efo ti? Roedd y llau yma ar YR UNION Iwain o eithin lle y'u gwelais yn hwyr fis Medi y llynedd. Felly os ydi'r gweau yn diflannu dros y gaeaf mae'r pla rhywsut yn parhau hebddynt. Gwneud synnwyr? DB
- Yes, I guess the mites overwinter somehow (maybe as eggs or juveniles in the deep gorse litter or in the soil). I wouldn't think they'd survive the winter exposed on the gorse stems, but who knows? Nature always has surprises

Richard Gallon

C'nhonod neu ddim c'nhonod - dyna'r cwestiwn

Mae gen i gwestiwn neu'n hytrach sylw am y cnwd mwyar duon eleni. Mi oeddwn yn arfer mynd i gasglu mwyar duon pan oeddwn yn fachgen a mi dwi wedi casglu pwysi ohonynt drost y blynyddoedd. Eleni mae'r cnwd wedi bod yn drwm iawn a mae'r tymor wedi dechrau ers o leiaf tair wythnos. Mi fyddai'n cerdded i Garmel pob dydd i nol y papur ac yn bwyta'r mwyar ar y ffordd, ond heddiw penderfynnais fynd i gasglu rhai oddifri fel petai. Sylweddolais yn weddol fuan bod rhywbeth yn wahannol eleni, sef nad oedd cynron ar unrhyw un o'r mwyar. Dros yr wythnosau diwethaf tydwi ddim wedi gweld cynron ar y mwyar a toedd yna ddim heddiw chwaith. Dim un o gwbl. Mae'n dda i bobl sy'n casglu mwyar duon, ond mae'n gwneud i mi feddwl beth sy'n digwydd. Mae fel petai rhywogaeth o bryfed wedi diflannu'n llwyr. Oes yna rywun yn gwybod beth sydd wedi digwydd i'r cynron eleni?


Gwyn Edwards

Pwy sy'n gallu cadarnhau sylw Gwyn? Oedd y clec oer yna tua'r 24ain Awst yn ddigon i wneud amdanyh nhw? Ynteu oedd y mwyar yn ddi-gnonyr cyn hynny? Mae'n debyg mai math o *Drosophila* (pryfed ffrwythau) ydir cynrhon. Ni welais lawer o rheiny eleni yn y ty o'i gymharu ag arfer.

Y mega-leuad olaf

Lluniau o bedwar ban byd

Cofio Tomos Roberts, Tyn Llan



Llundain Wil Williams


Athrylith yr enwau lleoedd, fu farw 2014. Teyrnged coffa ym mhapur bro Y Glorian i'w weld [yma](#) ac yn LLYFRGELL >YMCHWIL >Bywyd Cefn Gwlad >Enwau Lleoedd ar y wefan

Morghrug adeiniog

Gorffennaf 25, 1898: *This afternoon, in walking over Thwaite field... to look at the carrots and young swedes, which are suffering from drought, I saw a curious thing. Over the field, skimming here, there, and everywhere in the air, but within an area of a well defined circuit, where two or three hundreds of swallows and martins, all of them busy in the ceaseless consumption of some invisible insects. I suppose that the 'fly' was in the air, and that this was a rise of swallows collected to take advantage of it. As they were hawking within so limited a space, it would seem to show that these myriads of tiny insects on which they feed pass from place to place in swarms.*

H Rider Haggard (1909) *A Farmer's Year*

Os mai morgrug adeiniog sydd wedi tynnu sylw Haggard, mae'r ddamcaniaeth olaf, sef y pryfed yn pashio o le i le, yn amlwg anghywir. Yn y Tywyddiadur mae yna 11 o gofnodion morgrug yn hedfan ym mis Gorffennaf 26.1 (cynharaf 22 Gorff), dim ym mis Mehefin, 11ym mis Awst a 4 ym mis Medi.



Dyddiad cyfartalog gweld morgrug adeiniog ym mis Gorffennaf oedd y 26ain. gyda'r cynharaf ar yr 22ain. (gan Olwen Evans eleni yng Nghaernarfon). Mae sylw Rider Haggard o wennoliaid yn heidio ar ol pryfed mân ar y 25ain yn gyson a'r ddamcaniaeth mai morgrug adeiniog

oedd wedi eu denu. Roedd y sychder a gofnododd hefyd y flwyddyn honno yn cefnogi'r dehongliad hwn.

Gweler hefyd [Sioe Fawr y Morgrug](#) (gan Twm Elias) a morgrug yn [hedfan yn hwyr](#) (gan Ieuan Roberts) ar fynydd yr Aran

Pigion hydref - tymor y sgrympiau

2 Medi 1955: Siec gwlan £84.03.07d. Cario yd. Godro, danfon y llaeth. Sgrympiau Gwyl Grog. Oer, cawodydd
Dyddiaduron D.O. Jones, Ysbyty Ifan

20 Hydref 1949: Difiau. Tywydd egar a gaeafol. Diwrnod gwyntog a gawsom, oer gyda chawodau o sgrympiau penwaig, cenllysg, melt a tharannau, ac ysbeidiau o heulwen..

Dyddiadur TG Walker, Môn

... ac ambell 'sgrympyn' ym mis Mehefin hefyd:

17 Mehefin 1961: Cymylog, ambell ddiferyn o law, bwrw 'sgrympiau o 7 ymlaen...', chwynnu & hofio'r betys cynnar...
Dyddiadur Eric Jones (Siop Cymraeg Caernarfon) Wenllys, Pontllfyni

Pecyn Plu Rhos Bach



Wrth atgyweirio'r to yn ddiweddar (Awst 2014) cafodd Jean Thomas, Rhos Bach, Caeathro, hyd i'r plu hyn wedi eu lapio yn dwt ym mhapur newydd y [Sunday Chronicle](#) (dyddiedig 6 Rhagfyr 1925) ac wedi ei stwffio yn nho yr hen dy. Dim ond llwyth o blu'r frest sydd yno, dim olion o na chnawd na phlu adain. Beth ydy arwyddocad hyn tybed... ? **Jean Thomas >> DB**

Arthur Evans yn meddwl mai pecyn o blu petris ydyn nhw wedi eu cadw gan sgotwr ar gyfer gwneud plu. Beth am gasglu tystiolaeth a Ofergoelion y Ty i geisio taflu goleuni ar hyn. (ee. hen sgidiau un droed yn unig mewn hen simdde yn nyffryn Nantlle **Meic Povey**)

Rhwd y cyfardwf neu'r cwmffri yn y Brynddu



Comfrey Rust, Melampsorella symphyti from Brynddu. It would be nice to think that William Bulkeley brought the Comfrey and the rust to Brynddu. Who knows? This is the first record for NW Wales. This isn't a rare rust but it may have a more southern or eastern distribution, and there are few records in the rest of Wales. (I did find it also in Flintshire around the same time where it has been recorded before). **Debbie Evans**

Mwy am y chwilen gladdu (Bwletin 79)

Dwi'n meddwl mai *Nicrophorus vespilloides* ydi'r chwilen gladdu yn y Llên Natur diwethaf - mae terfyn yr antennae yn gwbwl ddu, os yw'r llun yn glir. Hefyd, gwiddon, ac nid llau, ydi'r teithwyr ar y chwilen. Mae'r chwilog yma'n drewi hefyd, ac mae angen golchi dwylo ar ôl eu handlo! Gyda llaw, mae na wefan reit handi ar y math yma o chwilog yn famma:

<http://www.amentsoc.org/publications/beetle-news/2009/beetle-news-vol-01-no-01-2009-march.pdf> **Dafydd Lewis**

Semantics! Yn ôl Geiriadur yr Academi MITE yw *gwiddonyn* neu *euddonyn*. WEEVIL yw *gwiddonyn*. LOUSE = lleuen (ll. llau) wrth gwrs. Mae'n rhaid cysoni. Tybed fasa'n bosibl cadw EUDDONYN ar gyfer mite a GWIDDONYN ar gyfer weevil? **Gol**

Lycoperdon ultra?



Dwi wedi dweud erioed bod y gem golff megis ffwng yn sugno'r daioni o gefn gwlad - a dyma'r dystiolaeth! **Gwyn Williams**

Lycoperdon ydi enw genws o godau mwg

Gloynnod y trilliw bach yn "haf-gysgu"



Gloynnod yn un lwmp ochor isa i quad blwch nythu 19 Awst 2014, Bethel, Bodorgan, Môn. Trilliw bach ydi hwna sydd ar y DDE eitha, beth bynnag. O sbio yn llyfr Collins Field Guide Insects... sydd yn dangos manylion o dan yr adan - mae bwa main glas gola tua gwaelod yr adain isa.. Os mai mantell goch ydi o, mi fasa'r bar coch sydd o bobty'r adain dop yn dangos. Tua 12:30, tynnwyd y llun, yn [fferm] Gerrig Gwyddel dan gaead blwch nythu. On i wedi meddwl symyd y blwch i safla arall ond nes i ddim. Ma'i wedi oeri. Ti'n meddwl eu bod wedi dwad at eu gilid i gadw'n gynnas tybad ? **Wil Williams**

A dyna dybiodd Alun Williams hefyd: "Ai mynd i drwmgwsg mae'r gloynnod yma, mae'r tywydd wedi oeri yn ddiweddar".

Pam nad ydi rhain allan yn ymborthi ar flodau rhyw fyddlea yn rhywle, yn lle stelcian mewn blwch nythu? Roedd [gloyn mewn trymgwsg](#) gaeaf Steffan yn yr Oriel ar ei ben ei hun.

Dyma'r entomolegydd Norman Lowe o Aberhonddu: *Why clustered? This seems to be a common phenomenon though I'm not sure why. Perhaps protection against predators. They also might want to avoid the temperature going too low in the depths of winter perhaps. [Ydi anifeiliaid oer eu gwaed yn cynhesu wrth ddynesu tybed?] And why not on buddleia? Probably they've already stocked up and it would cost more in terms of fat resources to be flying around with a heavy fat load and not much chance of adding more. But as fat stocks get used up they may come out again and have a top-up later in the month, or later still, if there's a warm spell. That's why you sometimes see overwintering species flying in warm days in winter.* **Norman Lowe** Roedd 15 Awst yn eitha oer hefyd (Gol)

Y trilliw melyngoes

This is the summer of the scarce tortoiseshell. Last month I wrote how our struggling small tortoiseshell was booming again, never imagining that its big Eastern European relative would stage an invasion. Until a few weeks ago, the scarce tortoiseshell was the rarest butterfly ever seen in Britain. Just one sighting had been recorded, in 1953, and that may have been a captive-bred specimen. It is the rarest no longer, after several dozen flew across the North Sea from Denmark and Holland and spread along the east coast from Lincolnshire to Kent. Early on, there was some doubt about the veracity of this distinctively yellow-legged insect, particularly one specimen loitering on a Norwich housing estate....

Patrick Barkham Guardian 31 Gorffennaf 2014

<http://www.ukbutterflies.co.uk/species.php?species=xanthomelas>

Un cofnod yn 1953? Dyma H Rider Haggard eto (awdur poblogaidd yn Oes Fictoria, ffermwr goludog o Norfolk, a naturiaethwr da):

Ebrill 26, 1898: ... *The butterflies however know that spring is at hand for already I have seen peacocks, large sulphurs [melyn y rhafnwydd?] and two specimens of the scarce tortoiseshell....* **H Rider Haggard (1909) A Farmer's Year**

Mae'r rhywogaeth hon (fe'i hadawenir yn Saesneg hefyd wrth yr enw *yellow legged tortoiseshell*) mor newydd, does dim enw eto arno yn y Gymraeg. Gwyliw y gwyrchoedd.....

Stryd-gwmwl a thywydd yr 22 Awst



22 Awst 2014 Ar ôl bore digon gwlyb mi gododd yn raddol drwy'r pawns gyda stryd gwmwl trawiadol yn datblygu dros Fon. Erbyn chwarter i 8 roedd y mynyddoedd yn hynod o glir a dim chwa o wynt.... yn gwbl hollol dawel.

Duncan Brown

Dyma'r **siart synoptig y diwrnod hwnnw**: Yr un cyfnod oeraidd oedd hwn a phan gafwyd y gloynnod ym Modorgan yn coegio gaeafgysgu (tudalen 3). Dyma ddywedodd ein harbenigwr tywydd Huw Holland Jones:

Yes, thought you might have seen that lovely **cloud street** on 22nd Aug. Early morning on 22nd a cold front moved away to the SE, so the early morning rain (only 2mm) cleared, but showers did follow (2.5mm) in the rather unstable NW airstream behind the cold front, finally drying out about 2pm as the air dried out. The excellent visibility was owing to the air coming down on a long fetch from far north of between Iceland and Greenland, no pollutants up there, just clean, crisp polar air.

The High just SE of Greenland didn't actually come over us, but the NW wind dropped out on the evening of the 22nd as the isobars opened out. On the clear cold night that followed I recorded 5.4C, my equal lowest August temp. here in Waunfawr.

On the 23rd the High lost its identity coalescing into a ridge linked to a shallow high over Biscay. Saturday night saw a min of 5.5C at Waunfawr, and in N Ireland at Katesbridge (a famous frost hollow) -1.9C occurred (N Ireland's lowest ever Aug temp). The ridge moved away to the E on 24th (Sunday) as a warm front and low started moving in from the west. On Sunday night, with the ridge over E Scotland, Braemar had a low of -2.1C. With an average temp of 13.8 (so far) this has been the coldest Aug since I've been in Waunfawr, and the coldest since that awful August of 1985.

Huw Holland Jones


Copor bach - ail gnwd



Llun: Luned Meredith
Fe'i tynnwyd yn Ngwarchodfa Conwy, 7 Medi eleni (Un o nifer o luniau o'r copor bach yn yr Oriol

Dyma'r misoedd (isod ar y dde) y gwelwyd y copor bach fel a ddengys yn y Tywyddiadur a'r Oriol (27 cofnod, y rhan fwyaf yng Nghymru).

Noder y cwmp ym mis Mehefin (saeth), sef y cyfnod rhwng cenhedlaeth y gwanwyn a chenhedlaeth yr haf (a chenhedlaeth yr haf yn fwy?).



Cymdeithas Edward Llwyd: Rhif Elusen Gofrestredig : 1126027
Ychwanegwch ddeunydd i ilennatur@yahoo.co.uk
Golygydd: Duncan Brown, Cysodi: Ifor Williams.

Yli be welais yn yr ardd rwan



Yli be welais yn yr ardd rwan [28 Awst 2014, Caernarfon]. Reit siwr byddi'n deud ei fod yn hollol, hollol gyffredin ond

mae ganddo wyneb gwahannol!

Emrys Jones

Mae o'n cael ei weld yn eitha aml ym mis Awst ar yr helyglys neu'r "goeden drops" (*Fuschia*). Ac mae ei drwyn elffant a'i lygaid mawr yn destun dychryn i ddydd ac anifail fel ei gilydd.

Lindys gwelchwyfyn yr

helyglys ydi'o, ond mae'r **oedolyn** yn dod i'r trap gwylfynod yn ei dymor yn aml iawn. A dyma ei dymor yn Waunfawr ers 1996

Dim haf bach Mihangel ymhob man

Nol o wyliau yn Ne Croatia [12 Medi 2014] - lle cawsom law mawr am rai oriau mewn 5 allan o'r 8 diwrnod oeddem yno. Y teulu oeddem yn aros hefo nhw yn dweud nad oeddent yn cofio Haf cyn wlyped o'r blaen. Roedd mwy o wyrdd i'w weld na welson pan fuon yno o'r blaen - a hefyd mwy o fogsitos. Pan yn sych roedd y tymheredd tua 28c ar ei uchaf. Wedi dychweldy adref gwelod fod y gwres yma wedi dod a'r pys per i flodeuo o'r diwedd, sawl maro anferth wedi datblygu a ffa dringo wedi mynd yn hir iawn. Tomatos tu allan wedi dechrau aeddfedu hefyd.

Olwen Evans

Brolio mawr i Adar Nythu Gogledd Cymru yn Ffrainc

Dyma sydd am ymddangos yn fuan yn un o brif gylchronnau adar Ffrainc, sef **Alauda**:

Le nord du Pays de Galles est un véritable paradis pour les ornithologues: d'une part il y a les montagnes du parc national de Snowdonia, un endroit idéal pour les oiseaux, et d'autre part la région est richement encadrée de falaises spectaculaires. La diversité avifaunistique est donc évidente. Même si le nord du Pays de Galles est peu peuplé, plus de 700 ornithologues volontaires ont rassemblé plus de 200 000 données, réparties sur cinq étés. Cet atlas a peu bizarre dans sa présentation et sa conception, compare les périodes 1968-1972, 1988-1991 et 2008-2012. Nous avons vu rarement des cartes de distribution et des graphiques aussi détaillés et aussi clairs. L'atlas est richement illustré de belles photos et les résumés sont écrits en gallois. Les chapitres introductifs sont également bilingues. Cela témoigne de la fierté linguistique des Gallois. The Breeding Birds of North Wales répond à toutes nos attentes, même les plus élevées.

([Google Translate](#))

Brenchley A., et al. (Ed.), 2013. The Breeding Birds of North Wales, Adar Nythu Gogledd Cymru, Gwasg Prifysgol Lerpwl

